# Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18: adroddiad penawdau (diweddaru)

18 Chwefror 2020
SFR 10/2020


Mae'r adroddiad hwn wedi'i ddiweddaru ers ei gyhoeddi ar 6 Rhagfyr 2018 i gynnwys ffigurau diwygiedig ar gyfer Lloegr a'r Alban. Gweler y nodyn diweddaru.

Bu Arolwg Cyflwr Tai Cymru (ACTC) 2017-18 yn casglu gwybodaeth am gyflwr a pherfformiad/effeithlonrwydd ynni pob math o gartref yng Nghymru. Roedd yr Arolwg yn cynnwys pob deiliadaeth, ond nid anheddau gwag. Mae'r datganiad hwn yn cynnwys detholiad o ganlyniadau yn unig; mae tablau mwy manwl wedi'u cyhoeddi ar wefan ACTC, a bydd dadansoddiad pellach o bynciau penodol yn cael ei gyhoeddi o ddechrau 2019 ymlaen. Nid yw ffigurau Safon Ansawdd Tai Cymru wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn. Caiff adroddiad manwl ar bynciau penodol ei gyhoeddi yn ei dro i sicrhau bod dehongliad a chyd-destun priodol yn cael eu darparu.

Oni nodir yn wahanol, mae gwahaniaethau a drafodir yn y datganiad hwn yn rhai sy'n arwyddocaol yn ystadegol.

## Prif bwyntiau

- Ers yr arolwg diwethaf yn 2008, mae cyflwr tai ar draws pob deiliadaeth yng Nghymru wedi gwella.
- Mae gan Gymru'r stoc dai hynaf yn y DU, a rhychwant o fathau tebyg o dai.




- Mae cyfran yr anheddau yn y sector rhentu preifat wedi cynyddu'n sylweddol ers 1981. Y sector rhentu preifat ar y cyfan sydd â'r stoc o dai hynaf gan gynnwys y gyfran uwch o dai o ansawdd gwael (e.e. sy'n cynnwys lleithder a pheryglon eraill).
- At ei gilydd, tai cymdeithasol sydd o ansawdd gwell na thai preifat (eiddo i berchen-feddianwyr ac eiddo sy'n cael ei rentu'n breifat); yn ogystal â thai mwy newydd.
- Mae'r band effeithlonrwydd ynni cyfartalog wedi gwella o Fand E yn 2008 i Fand D yn 2017-18.

## Y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn darparu prif ganlyniadau cenedlaethol Arolwg Cyflwr Tai Cymru (ACTC) 2017-18.

Ceir rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg, y pynciau dan sylw a'r diffiniadau yn yr adran Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd.

Mae ffurflen, deunyddiau, Adroddiad Ansawdd, Adroddiad Technegol a manylion am ddatganiadau nesaf yr arolwg ar gael ar wefan ACTC.

## Yn y datganiad hwn

Cefndir 2
Proffil y Stoc Dai 2
Cyflwr y Stoc Dai 6
Cyd-destun polisi 17
Atodiad A: Diffygion Strwythurol 19
Atodiad B: System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai 20
Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd 22

Ystadegydd: Abi Woodham ~ 0300 025 5050 ~ ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru

Ymholiadau'r wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau'r cyhoedd: 0300 025 5050 Twitter: @YstadegauCymru

## Cefndir

Tynnwyd y sampl ar gyfer Arolwg Cyflwr Tai Cymru (ACTC) 2017-18 o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Cynhaliwyd archwiliadau anymyrrol gan syrfëwyr cymwysedig mewn 2,549[d] o anheddau ar hyd a lled Cymru rhwng mis Awst 2017 a mis Ebrill 2018. Mae'r data wedi'u pwysoli i gynrychioli'r stoc o dai yng Nghymru.

Dyma'r datganiad cyntaf o ddata o ACTC 2017-18, ac mae'n cynnig trosolwg o ganfyddiadau'r arolwg ar lefel genedlaethol. Mae tablau manylach sy'n dangos y canlyniadau wedi'u cyhoeddi i gyd-fynd â'r dadansoddiad hwn yn Nangosydd Canlyniadau ACTC ar wefan ACTC. Bydd y canlyniadau hynny'n cael eu hehangu wrth i fwy o'r gwaith dadansoddi gael ei gyhoeddi. Caiff adroddiadau manwl o bynciau penodol ar lefel genedlaethol eu cyhoeddi o ddechrau 2019 ymlaen.


Arolwg safonol o gyflwr tai yw ACTC, a phan fo'n briodol, mae'r arolwg wedi'i addasu i fodloni anghenion polisi tai yng Nghymru. Mae'n debyg iawn i'r arolygon hynny a gynhaliwyd yn flaenorol yng Nghymru neu'r rheini a gynhaliwyd mewn gwledydd eraill y DU. Lle y bo'n bosibl, gwnaed cymariaethau â gwledydd eraill y DU, gan ddefnyddio'r data diweddaraf a oedd ar gael ar y pryd wrth baratoi'r cyhoeddiad.

Am gyd-destun ar gyfer y polisi tai perthnasol, gweler tudalen 17.

## Proffil y Stoc Dai

### Deiliadaeth

**Siart 1: Deiliadaeth, Cymru, 2017-18**





Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

[d] Sylwer: mae'r ffigur blaenorol, sef bod 2,449 o arolygiadau wedi eu cynnal, yn anghywir. Diwygiwyd hyn ar 5 Chwefror 2019 a bellach mae'n dangos y ffigur cywir, sef 2,549.

Roedd 69 y cant o anheddau yng Nghymru yn eiddo i berchen-feddianwyr yn 2017-18: y gyfradd isaf ers 1993, a gostyngiad o 4 pwynt canran o'u cymharu â chanlyniadau 2008. Mewn cyferbyniad, roedd canran anheddau a oedd yn cael eu rhentu'n breifat ar ei huchaf ers 1981, sef 13 y cant, ond mae'n parhau i fod yn is na'r ganran ar gyfer y sector rhentu cymdeithasol (eiddo sy'n cael ei rentu gan awdurdodau lleol neu landlord cymdeithasol cof restredig). Ceir darlun tebyg ar hyd a lled y DU, ond mae'r sector rhentu preifat yn fwy na'r sector rhentu cymdeithasol yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon[1].

**Siart 2: Deiliadaeth, Cymru, 1968 i 2017-18**





Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

## Oedran yr annedd

Mae gan Gymru'r stoc hynaf o anheddau yn y DU, gyda dros chwarter o'r holl anheddau (26 y cant) wedi'u hadeiladu cyn 1919, o'i gymharu â dim ond 10 y cant yng Ngogledd Iwerddon. Mewn cyferbyniad, mae gan Ogledd Iwerddon y stoc fwyaf modern o anheddau, gyda 40 y cant o anheddau wedi'u hadeiladu ers 1980.

[1] Ffynonellau: Arolwg Tai Lloegr 2017-18, Arolwg Cyflwr Tai yr Alban 2018, Arolwg Cyflwr Tai Gogledd Iwerddon 2016

**Siart 3: Oedran yr annedd yn ôl gwlad yn y DU**





Ffynonellau: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18
Arolwg Tai Lloegr 2017-18
Arolwg Cyflwr Tai yr Alban 2018
Arolwg Cyflwr Tai Gogledd Iwerddon 2016

(a) Mae ffigurau'r Alban yn berthnasol i 1965-1982 ac ar ôl 1982

Mae gan y sector rhentu preifat y stoc hynaf, gyda 43 y cant o anheddau sy'n cael eu rhentu'n breifat wedi'u hadeiladu cyn 1919. Cafodd 91 y cant o'r stoc o dai cymdeithasol eu hadeiladu ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

**Siart 4: Oedran yr annedd yn ôl deiliadaeth, Cymru, 2017-18**





Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

### Y math o annedd

Roedd 30 y cant o'r holl anheddau sy'n dai cymdeithasol yng Nghymru yn fflatiau yn 2017-18, o'u cymharu â dim ond 4 y cant o anheddau sy'n eiddo i berchen-feddianwyr.


**Siart 5: Y math o annedd yn ôl deiliadaeth, Cymru, 2017-18**




Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

Mae'r math o annedd yn amrywio dros amser: roedd 45 y cant o'r anheddau a gafodd eu hadeiladu cyn 1945 yn dai teras, o'u cymharu ag anheddau'r ddau ddegawd dilynol, lle yr oedd dros hanner nifer yr anheddau a adeiladwyd yn dai pâr. Roedd eiddo mwy modern, a adeiladwyd ar ôl 1980, gan amlaf yn eiddo sengl ac yn fflatiau.


**Siart 6: Y math o annedd yn ôl oedran, Cymru, 2017-18**




Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

Roedd 11 y cant o'r stoc o anheddau yng Nghymru yn fflatiau o'u cymharu ag 20 y cant yn Lloegr[2], a 36 y cant yn yr Alban[3] (nid oes ffigurau eraill y gellir eu cymharu ar gael, gan nad yw'r Alban yn casglu gwybodaeth ar wahân ar fyngalos). Roedd byngalos yn cynrychioli dros un o bob pump o stoc o anheddau Gogledd Iwerddon, sef 21 y cant.

**Siart 7: Y math o annedd yn ôl gwlad yn y DU**




Ffynonellau: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18
Arolwg Tai Lloegr 2017-18
Arolwg Cyflwr Tai Gogledd Iwerddon 2016

---

[2] Arolwg Tai Lloegr 2017-18
[3] Arolwg Cyflwr Tai yr Alban 2018

# Cyflwr y stoc dai

## Effeithlonrwydd ynni mewn anheddau

Y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) yw'r fethodoleg a gaiff ei defnyddio gan y Llywodraeth i asesu a chymharu perfformiad amgylcheddol ac ynni mewn anheddau.


Mae SAP yn gweithio drwy asesu faint o ynni y bydd annedd yn ei ddefnyddio wrth ddarparu lefel benodol o gysur a gwasanaethau. Mae'r asesiad yn seiliedig ar ragdybiaethau safonedig mewn perthynas â meddiannaeth ac ymddygiad. Mae hynny'n sicrhau bod perfformiad annedd yn cael ei gymharu ag annedd tebyg. Mae'r sgorau ar raddfa rhwng 1 a 100, lle bo 100 yn cynrychioli dim costau ynni.

Mae sgorau SAP yn cael eu rhannu i fandiau o A i G.  Y bandiau hyn yw'r rheini a ddefnyddir ar gyfer Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPC).  Mae'r gwerthoedd uchaf (h.y. y lefelau uchaf o ran effeithlonrwydd ynni) wedi'u priodoli i fand A, a'r gwerthoedd isaf wedi'u priodoli i fand G.

Defnyddiwyd methodoleg 'SAP 2012' yn Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i weld yr Eirfa ar wefan ACTC.

Y sgôr SAP gyfartalog ar gyfer annedd preswyl yng Nghymru oedd 61, sy'n cyfateb i fand D EPC. Y sgôr gyfartalog ar gyfer anheddau rhent cymdeithasol oedd 68 (band D EPC), tra bo eiddo i berchen-feddianwyr ac anheddau a oedd yn cael eu rhentu'n breifat oedd 60 ar gyfartaledd (band D EPC).  Cyfrifwyd SAP 2012 ar sail data Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008 er mwyn gallu dadansoddi tueddiadau. Yn gyffredinol, roedd y sgôr SAP gyfartalog wedi cynyddu 11 o bwyntiau rhwng 2008 a 2017-18, a’r sector rhentu preifat a ddangosodd y cynnydd mwyaf mewn sgorau SAP yn ystod y cyfnod hwnnw, gyda chynnydd o 13 pwynt SAP.

**Siart 8: Sgorau SAP cyfartalog yn ôl deiliadaeth, Cymru, 2008, 2017-18**





Ffynonellau: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18
Arolwg Eiddo Byw yng Nghymr 2004 a 2008

Mae methodoleg SAP wedi bod trwy ddau ddiweddariad mawr ers fersiwn 2005 a gafodd ei defnyddio'n wreiddiol ar gyfer data Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008. Yn ychwanegol, cafodd methodoleg RdSAP ei diweddaru ar gyfer SAP 2012 ym mis Tachwedd 2017. Mae'r gyfres hon o ddiweddariadau, ynghyd â'r gwelliannau parhaus a wnaed i'r modelau, wedi cyflwyno nifer o newidiadau i'r ffordd y mae SAP yn cael ei chyfrifo. Bydd y rhan fwyaf o'r newidiadau'n effeithio ar bob deiliadaeth mewn modd tebyg, ond oherwydd bod gan dai cymdeithasol broffil gwahanol i dai preifat (e.e. mwy o waliau ceudod wedi'u hinswleiddio), fe ostyngodd cymedr SAP ychydig ar gyfer data 2008 wrth gyfrifo gan ddefnyddio SAP 2012. Gellir gweld y manylion llawn yn yr adran Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd.

Yn 2017-18, y sgôr SAP cyfartalog ar gyfer pob annedd yn Lloegr oedd 62. Yn 2018, 65 oedd y sgôr SAP cyfartalog yn yr Alban, ac yn 2016 65 oedd y sgôr yng Ngogledd Iwerddon.

Gallai'r gwahaniaethau mewn effeithlonrwydd ynni rhwng gwledydd y DU gael eu priodoli'n rhannol o leiaf i oedran y stoc o anheddau a/neu'r math o annedd: Mae gan Gymru'r stoc hynaf a'r sgôr SAP gyfartalog is; mae gan Ogledd Iwerddon y stoc mwyaf newydd a'r sgôr SAP gyfartalog uwch.


**Siart 9: Sgôr SAP gyfartalog yn ôl oedran yr annedd (SAP 2012), Cymru, 2008, 2017-18**




Ffynonellau: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18
Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008

Fel y disgwylid, mae cydberthynas gryf rhwng oedran annedd a'i effeithlonrwydd ynni, ac mae gan anheddau hŷn sgorau SAP llawer is. Roedd gan anheddau a adeiladwyd ar ôl 2002 sgôr SAP gyfartalog o 73, o'u cymharu â sgôr SAP gyfartalog o 53 yn unig ar gyfer anheddau a adeiladwyd cyn 1919. Roedd anheddau o bob oed wedi dangos cynnydd cyffredinol yn eu sgôr SAP gyfartalog rhwng 2008 a 2017-18. Roedd y cynnydd isaf o 5 pwynt SAP ar gyfer anheddau a adeiladwyd ers 2002; fodd bynnag, roedd hynny wedi newid eu band o sgôr D i sgôr C, sef yr unig gategori oedran yn y band hwnnw.

**Siart 10: Sgôr SAP gyfartalog yn ôl y math o annedd (SAP 2012), Cymru, 2008, 2017-18**




Ffynonellau: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18
Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008

Mae effeithlonrwydd ynni mewn annedd hefyd yn amrywio yn ôl y math o annedd.  Yn  2017-18, roedd gan fflatiau a adeiladwyd yn bwrpasol y sgôr SAP gyfartalog uchaf, a oedd yn cynyddu gan 7 pwynt SAP ers 2008, i gyrraedd sgôr gyfartalog o 69, ac yn eu symud i fand C. Roedd gan anheddau sengl y sgôr SAP gyfartalog isaf yn 2008, ond gwelwyd y cynnydd mwyaf amdanynt (12 pwynt SAP) yn 2017-18, a oedd wedi newid eu band o E i D.


Bwriedir cyhoeddi dadansoddiad manwl o effeithlonrwydd ynnid anheddau, gan gynnwys mesurau gwresogi ac ynni yn gynnar yn 2019.

## Gwres

Roedd 95 y cant o anheddau yng Nghymru yn defnyddio gwres canolog i wresogi eu cartrefi yn 2017-18.

Cyfran yr anheddau yng Nghymru â gwres canolog sy'n cael ei danio gan nwy [4] oedd 82 y cant, o'u cymharu ag 85 y cant yn Lloegr[5] a dim ond 24 y cant yng Ngogledd Iwerddon[6] (roedd gan 67 y cant o anheddau yng Ngogledd Iwerddon wres canolog sy'n cael ei danio gan olew). Wrth baratoi'r cyhoeddiad nid oedd ffigur cymharol ar gyfer yr Alban, ond roedd 81 y cant o anheddau yn yr Alban[7] yn defnyddio nwy drwy brif gyflenwad fel eu prif danwydd gwresogi o'u cymharu ag 80 y cant o anheddau yng Nghymru.

### Siart 11: System wresogi a'r prif fath o danwydd, Cymru, 2017-18




(a) Sy'n cynnwys nwy o'r prif gyflenwad, symiau mawr o LPG a  nwy potel (propan)
(b) Er enghraifft, tanau nwy, tanau glo, stofiau sy'n llosgi coed, tanau trydan

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

[4] Sy'n cynnwys nwy o'r prif gyflenwad, symiau mawr o LPG a nwy potel (propan).
[5] Arolwg Tai Lloegr 2017-18
[6] Arolwg Cyflwr Tai Gogledd Iwerddon 2016
[7] Arolwg Cyflwr Tai yr Alban 2018

## System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai

Mae'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS) yn ddull gwerthuso ar sail risg i helpu awdurdodau lleol nodi a diogelu rhag y risgiau posibl o ran iechyd a diogelwch rhag diffygion a nodwyd mewn anheddau. Caiff ei defnyddio i bennu a yw anheddau preswyl yn ddiogel i fyw ynddynt, neu a yw perygl yn bodoli a allai achosi niwed i iechyd a diogelwch darpar feddiannydd.


Mae'r System yn asesu 29 o beryglon sy'n ymwneud â thai ac yn darparu sgôr ar gyfer pob un. Gelwir y rheini sy'n sgorio'n uchel ar y raddfa (ac felly'n achosi'r risg uchaf) yn beryglon Categori 1 - os bydd annedd, yn dilyn archwiliad gan awdurdod lleol, yn cynnwys perygl Categori 1, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i gymryd y camau gorfodi priodol. Gelwir y rheini sy'n is ar y raddfa ac sy'n peri llai o risg yn beryglon Categori 2 - pan fydd y rheini'n digwydd gallai'r awdurdod lleol gymryd camau gorfodi.

Ceir manylion llawn am fesur a modelu'r peryglon hyn yn Adroddiad Technoleg yr Arolwg, sydd ar gael ar wefan ACTC. Mae rhestr o'r peryglon a'u statws mesuredig/wedi'i fodelu yn Atodiad B.

Bwriedir cyhoeddi dadansoddiad manwl o asesiad yr Arolwg o HHSRS yn gynnar yn 2020.

Roedd 82 y cant o anheddau yn rhydd o beryglon categori 1 yn 2017-18, o'u cymharu â 71 y cant yn 2008. Roedd gan dai cymdeithasol y gyfradd uchaf o anheddau a oedd yn rhydd o beryglon categori 1 (93 y cant), a gwelwyd bod gan dai rhent preifat y cyfraddau isaf (76 y cant) - ond nid oedd y gwahaniaeth rhwng tai rhent preifat ac eiddo i berchen-feddianwyr yn arwyddocaol yn ystadegol. Roedd pob deiliadaeth wedi gwella ers 2008, a thai rhent preifat a ddangosodd y gwelliant mwyaf. Dylid nodi mai dim ond 16 o'r 29 o beryglon a gafodd eu hasesu yn 2008, tra bo'r 26 ohonynt a gafodd eu hasesu yn 2017-18.


### Siart 12: Anheddau sy'n rhydd o beryglon categori 1 yn ôl deiliadaeth, Cymru, 2008, 2017-18



Ffynonellau: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18
Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008

Roedd anheddau mwy newydd yn fwy tebygol o fod yn rhydd o beryglon categori 1. Yn 2017-18, roedd mwy na 9 o bob 10 annedd a adeiladwyd ar ôl 1964 yn rhydd o beryglon categori 1 o'u cymharu â thua dau draean o anheddau a adeiladwyd cyn 1919. Mae anheddau o bob oed wedi gwella ers 2008, a'r anheddau a adeiladwyd cyn 1919 wedi gwella'r mwyaf.


**Siart 13: Anheddau sy'n rhydd o beryglon categori 1 yn ôl oed yr annedd , Cymru, 2008, 2017-18**




Ffynonellau: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18
Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008

Roedd fflatiau'n fwy tebygol o fod yn rhydd o beryglon categori 1 na thai. A hynny'n rhannol oherwydd bod adeiladau mwy newydd yn llai tebygol o gynnwys peryglon categori 1; cafodd y rhan fwyaf o fflatiau eu hadeiladu ar ôl 1980, ond cafodd cyfran fawr o dai teras eu hadeiladu cyn 1919.

**Siart 14: Anheddau sy'n rhydd o beryglon categori 1 yn ôl y math o annedd , Cymru, 2018, 2017-18**




Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

**Cymariaethau ag ystadegau y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS) yng Nghymru**


Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ystadegau a gesglir gan awdurdodau lleol yn sgil eu hasesiadau eu hunain o anheddau o dan HHSRS. Mae'r rhain ar gael ar dudalen gwe Peryglon Tai a Thrwyddedau. Roedd awdurdodau lleol wedi cynnal tua 6,300 o asesiadau HHSRS yn 2017-18, a thra bo'r rhain yn cynnwys yr holl anheddau preswyl, mae'r rhan fwyaf o'r asesiadau wedi'u cynnal ar dai yn y sector preifat. Gall asesiad gael ei gynnal gan awdurdod lleol am nifer o resymau. Er enghraifft, mae asesiad HHSRS yn cael ei gynnal wrth drwyddedu tŷ amlfeddiannaeth neu pan dderbynnir cwyn am eiddo gan y meddiannydd neu gymydog. Ni ellir cymharu'r wybodaeth honno ag asesiad ACTC, gan ei bod yn cynnwys yr anheddau preswyl hynny yn unig a gafodd eu hasesu gan awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn adrodd ac nid pob annedd preswyl yn ystod y flwyddyn honno.

## Cymariaethau â'r DU

Roedd 89 y cant o anheddau yn Lloegr yn rhydd o beryglon categori 1 yn 2017-18. Fel yng Nghymru, roedd gan y sector rhentu preifat yn Lloegr y gyfradd isaf o anheddau a oedd yn rhydd o beryglon categori 1 (86 y cant). Er nad yw HHSRS wedi'i mabwysiadu'n ffurfiol yng Ngogledd Iwerddon, yn 2016, roedd 91 y cant o'r holl anheddau'n rhydd o beryglon categori 1. 8 Roedd gan anheddau perchen-feddianwyr y gyfradd isaf o anheddau a oedd yn rhydd o beryglon categori 1 yng Ngogledd Iwerddon. Nid oes gan yr Alban fesur cymharol ar gyfer iechyd a diogelwch mewn perthynas ag anheddau.

[8] Arolwg Cyflwr Tai Gogledd Iwerddon 2016

**Siart 15: Anheddau sy'n rhydd o beryglon categori 1 yn ôl gwlad yn y DU** [a]




Ffynonellau: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18
Arolwg Tai Lloegr 20117-18
Arolwg Cyflwr Tai Gogledd Iwerddon 2016

a) Nid oes ffigur cymharol ar gael ar gyfer yr Alban

Bwriedir cyhoeddi dadansoddiad manwl o asesiad yr Arolwg o HHSRS yn gynnar yn 2020.

### Synwyryddion carbon monocsid monocsid

Roedd gan 46 y cant o anheddau synhwyrydd carbon a oedd yn gweithio.

### Synwyryddion mwg

Roedd gan 54 y cant o anheddau synhwyrydd mwg a oedd yn gweithio drwy brif gyflenwad ar bobl llawr.


### Mesuryddion dŵr

Roedd gan 42 y cant o anheddau fesurydd dŵr a oedd yn bresennol. Mewn anheddau perchen-feddianwyr y gwelwyd y gyfradd uchaf o fesuryddion dŵr yn bresennol (44 y cant), ac wedyn yn dilyn y rheini yr oedd anheddau rhent preifat (40 y cant). Tai cymdeithasol a oedd â'r gyfradd isaf (33 y cant), er nad oedd y gwahaniaethau rhwng deiliadaethau'n arwyddocaol yn ystadegol.

### Lleithder

Roedd 93 y cant o anheddau'n rhydd o unrhyw fath o gyddwysiad, llwydni neu leithder yn 2017-18. O'r 7 y cant lle gwelwyd lleithder, mewn anheddau rhent preifat y gwelwyd y nifer uchaf o achosion. Roedd gan 13 y cant o anheddau rhent preifat achosion o leithder mewn un ystafell neu fwy.

**Siart 16: Lleithder, llwydni neu gyddwysiad yn bresennol yn ôl deiliadaeth, Cymru, 2017-18**




Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

Gall cyddwysiad, lleithder sy'n codi neu'n ymdreiddio, gynnwys unrhyw beth o fannau bach llaith neu gyddwysiad/llwydni ar ran o wal sengl mewn un ystafell (a achoswyd er enghraifft gan system awyru aneffeithiol wrth goginio) i nifer o achosion o gyddwysiad/llwydni neu leithder drwy'r holl annedd. Felly, nid yw'r ffaith bod lleithder neu gyddwysiad yn bresennol o anghenraid yn golygu ei fod yn broblem ddifrifol o ran cyflwr yr annedd.

- Canfuwyd achosion o leithder a oedd yn ymdreiddio mewn 4 y cant o'r holl anheddau.
- Canfuwyd achosion difrifol o gyddwysiad/twf llwydni mewn 3 y cant o'r holl anheddau.
- Canfuwyd achosion o leithder a oedd yn codi mewn 2 y cant o'r holl anheddau.


Mae gan bob un o wledydd y DU eu methodoleg eu hunain ar gyfer pennu achosion o leithder mewn annedd. O ddefnyddio methodoleg Lloegr i ddadansoddi data Cymru, y ffigur ar gyfer anheddau sy'n rhydd o leithder yw 94 y cant, o'i gymharu â 96 y cant yn Lloegr.9 Yng Ngogledd Iwerddon 10mae tua 1 y cant o gartrefi wedi'u dynodi'n anaddas oherwydd lleithder, ond nid yw hwnnw'n fesur cymharol. Ni ellir cymharu'r ffigur ar gyfer yr Alban[11] (89 y cant o anheddau sy'n rhydd o leithder) yn uniongyrchol â Chymru ychwaith.

## Diffygion strwythurol

Cafodd anheddau eu hasesu ar gyfer nifer o wahanol ddiffygion strwythurol, gan gynnwys problemau gyda'r to, y waliau a'r lloriau. Gellir gweld rhestr lawn o'r diffygion hyn yn Atodiad A. Canfuwyd bod gan 5 y cant o anheddau o leiaf un diffyg strwythurol yn 2017-18, llai na hanner y nifer yn 2004.

[9] Arolwg Tai Lloegr 2017-18
[10] Arolwg Cyflwr Tai Gogledd Iwerddon 2016
[11] Arolwg Cyflwr Tai yr Alban 2018

**Siart 17: Anheddau ag o leiaf un diffyg strwythurol, Cymru, 2004 i 2017-18**




Ffynonellau: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18
Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2004 a 2008

Roedd gan 2 y cant o anheddau yng Ngogledd Iwerddon[12] o leiaf un diffyg strwythurol. Nid oedd ffigur cymharol ar gael ar gyfer Lloegr wrth baratoi'r datganiad hwn. Yn yr Alban, mae lefelau adfeiliad yn cael eu mesur yn wahanol, ac o'r herwydd hynny nid oes ffigur ar gael.

### Plwm mewn pibelli dŵr yfed

Gwelwyd bod gan 8 y cant o anheddau blwm yn eu pibelli dŵr yfed, naill ai cyn neu ar ôl y stopfalf. Roedd gan 5 y cant blwm yn y pibelli dŵr cyn y stopfalf, a 5 y cant ar ôl y stopfalf (roedd gan rai anheddau blwm yn y pibelli cyn ac ar ôl y stopfalf).

### System drydanol

Roedd system drydanol yn bresennol ym mhob un o'r anheddau a aseswyd, ac roedd pob un yn rhedeg ar y prif gyflenwad arferol. Roedd gan 23 y cant o anheddau fesurydd deallus a 14 y cant fesurydd rhagdalu.

Roedd presenoldeb mesuryddion rhagdalu trydan yn amrywio yn ôl deiliadaeth, ac roedd gan 5 y cant o anheddau perchen-feddianwyr fesurydd rhagdalu trydan, o'u cymharu â 46 y cant o dai cymdeithasol, a 23 y cant o anheddau rhent preifat.


[12] Arolwg Cyflwr Tai Gogledd Iwerddon 2016

### System nwy

Roedd gan 85 y cant o anheddau system nwy yn bresennol, ac o'r rheini, roedd 95 y cant yn rhedeg ar y prif gyflenwad. Roedd mesurydd deallus gan 22 y cant o anheddau â system nwy, [13] ac roedd gan 15 y cant fesurydd rhagdalu.

Fel sy'n wir am fesuryddion rhagdalu trydan, mae presenoldeb mesuryddion rhagdalu nwy yn amrywio'n eang yn ôl deiliadaeth:

**Siart 18: Anheddau â mesuryddion rhagdalu nwy yn ôl deiliadaeth, Cymru, 2017-18**




Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

[13]nodwyd gan y syrfewyr eu bod yn bresennol, ni nodwyd a oedd y mesurydd yn gweithio.

## Cyd-destun polisi

Ers yr Arolwg Cyflwr Tai Cymru ddiwethaf yn 2008 cafodd amryw o bolisi, cyllid a rhaglennu Llywodraeth Cymru i wneud â thai effaith ar sectorau wahanol dai ar draws Cymru; tai preifat (perchennog preswyl a rhentu preifat) a thai cymdeithasol. Gall amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd ehangach hefyd wedi'i ddylanwadu ar yr ymestyn ac amod o wahanol fathau o dai. Mae'r rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth Cymru wedi, ac yn parhau i ffocysu ar sicrhau fod pawb yn byw mewn tŷ gweddus sy'n cwrdd â'u hanghenion a chefnogi eu lles.

### Y sector rhentu preifat

O ran y sector rhentu preifat, cyflwynodd y Ddeddf Tai (Cymru) (2014) cofrestru gorfodol i bob landlord a thrwyddedu ar gyfer pob landlord ac asiant hunan-reoli, drwy Rentu Doeth Cymru. Mae Cod ymarfer y Rhentu Doeth Cymru yn cynnwys gofyniad ar gyfer holl landlordiaid i gydymffurfio ag unrhyw hysbysiadau gwella a gyflwynir o dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai. Gall methu â chydymffurfio ag unrhyw hysbysiadau arwain at dynnu o drwydded i osod neu i reoli eiddo ar rent. Gall tenantiaid hefyd wneud defnydd o Rentu Doeth Cymru fel pwynt cyswllt cyntaf i gwyno am gyflwr eu heiddo wedi'u rhentu ac mae cwynion yn cael ei logio yn erbyn yr eiddo, landlord neu asiant a'u gyfeirio at yr awdurdod lleol perthnasol i gymryd camau dilynol.

### Sector cymdeithasol ar rent: Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)

Ar gyfer darparwyr tai cymdeithasol, mae'r Llywodraeth Cymru yn darparu £108m o gyllid cyfalaf bob blwyddyn ar gyfer gwella tai cymdeithasol presennol y gellir ei ddefnyddio i helpu eu tai i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn mis Rhagfyr 2020. Darperir hyn i awdurdodau tai lleol (drwy'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr) a Stoc Trosglwyddo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (drwy arian Bwlch Gwaddoli)

### Cymorth eraill ar gyfer gwella tai

Ers 2011, mae Llywodraeth Cymru, drwy'r Rhaglen Cartrefi Cynnes, wedi buddsoddi mwy na £240 miliwn i wella effeithlonrwydd ynni mewn mwy na 45,000 o gartrefi y bobl ar incwm isel neu sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o Gymru. Darperir buddsoddiad pellach o £104 miliwn ar gyfer Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod (2017-2021).

Mae'r Strategaeth Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru yn dod i ben yn Rhagfyr 2018. Bydd canlyniad o Arolwg Cyflwr Tai Cymru yn darparu sail dystiolaeth i ddatblygu amcanion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan ddefnyddio mwy o ddata yn gyfredol, i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni yn y cartref o 2019 ymlaen.

**Rheoliadau adeiladu ar gyfer cartrefi**

Roedd newidiadau i'r rheoliadau adeiladu a'r canllawiau technegol cysylltiedig ar gyfer rhan L (arbed tanwydd a phŵer) y rheoliadau adeiladu a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2014 yn codi safonau ar gyfer cartrefi newydd.

**Lleihau allyriadau carbon**

Mae rhaglen datgarboneiddio Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol bod galw carbon o gartrefi Cymru yn lleihau 80% (o lefelau 1990) erbyn 2050. Mae rhaglen ar gyfer tymor nesaf y Llywodraeth yn cael ei datblygu. Bydd defnyddio data SATC mewn cyfuniad ag ymchwil arall yn llywio rhaglen cyfarwyddyd ar yr hyn sy'n gweithio, sut i dargedu adnoddau yn fwyaf effeithiol a sut y gellir mynd i'r afael â materion megis tlodi tanwydd ac ansawdd tai tra'n mynd i'r afael ag agenda datgarboneiddio.

## Atodiad A: diffygion strwythurol

1. Y to'n ymledu
2. Ymosodiad sylffad
3. Parapet ansad
4. Wal sy'n bolio
5. Symudiad gwahaniaethol
6. Pant yn y to
7. Codiad crwm yn y to
8. Diffyg ar y linteli
9. Diffyg ar y deunydd sy'n rhwymo'r waliau
10. Lloriau, grisiau neu nenfydau ansad
11. Pydredd sych/pydredd gwlyb
12. Heigiad o greaduriaid sy'n tyllu drwy goed
13. Digonoldeb balconïau/bargodiadau
14. Sefydlogrwydd y sylfeini
15. Cyfander y ffrâm strwythurol
16. Cyfander paneli'r waliau
17. Wal derfyn - uchder anniogel
18. Wal derfyn - dros ei phlwm
19. Wal derfyn - cracio llorweddol
20. Wal gynhaliol ansad
21. Unrhyw broblem arall

## Atodiad B: System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai

| | Perygl | Sut yr asesir | Grŵp oedran bregus penodedig |
|---|---|---|---|
| 1 | Oer dros ben | Modelu | 65 oed neu'n hŷn |
| 2 | Syrthio ar wynebau lefel | Mesur yn llawn | 60 oed neu'n hŷn |
| 3 | Syrthio ar risiau ac ati | Mesur yn llawn | 60 oed neu'n hŷn |
| 4 | Pelydriad | Modelu | Dim |
| 5 | Gwrthdrawiad a llithiad | Fflagio os bydd y risg enbyd | Iau na 5 oed |
| 6 | Fflamau, arwynebau poeth ac ati | Mesur yn llawn | Iau na 5 oed |
| 7 | Gorlenwi a dim lle | Modelu | Dim |
| 8 | Tân | Mesur yn llawn | 60 oed neu'n hŷn |
| 9 | Lleithder a thwf llwydni | Mesur yn llawn | Iau na 14 oed |
| 10 | Tresbaswyr yn dod i mewn | Fflagio os bydd y risg enbyd | Dim |
| 11 | Syrthio sy'n gysylltiedig â chael bath | Fflagio os bydd y risg enbyd | 60 oed neu'n hŷn |
| 12 | Sŵn | Fflagio os bydd y risg enbyd | Dim |
| 13 | Syrthio rhwng lefelau | Mesur yn llawn | Iau na 5 oed |
| 14 | Diogelwch bwyd | Fflagio os bydd y risg enbyd | Dim |
| 15 | Diogelwch trydanol | Fflagio os bydd y risg enbyd | Iau na 5 oed |
| 16 | Cynhyrchion carbon monocsid a thanwydd hylosgi | Fflagio os bydd y risg enbyd | 65 oed neu'n hŷn |
| 17 | Hylendid personol, glanweithdra a systemau draenio | Fflagio os bydd y risg enbyd | Iau na 5 oed |
| 18 | Ffrwydriadau | Fflagio os bydd y risg enbyd | Dim |
| 19 | Safle amwynderau ac ati, a'r gallu i'w defnyddio | Fflagio os bydd y risg enbyd | 60 oed neu'n hŷn |
| 20 | Cwymp strwythurol ac elfennau'n syrthio | Fflagio os bydd y risg enbyd | Dim |
| 21 | Gwres eithafol | Fflagio os bydd y risg enbyd | 65 oed neu'n hŷn |
| 22 | Asbestos (ac MMF) | Ddim yn cael eu hasesu | Dim |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 23 | Bioladdwyr | Ddim yn cael eu hasesu | Dim |
| 24 | Plwm | Modelu | Iau na 3 oed |
| 25 | Nwy tanwydd nad yw'n llosgi | Fflagio os bydd y risg enbyd | Dim |
| 26 | Cyfansoddion organig anweddol | Ddim yn cael eu hasesu | Dim |
| 27 | Goleuadau | Fflagio os bydd y risg enbyd | Dim |
| 28 | Hylendid domestig - plâu a sbwriel | Fflagio os bydd y risg enbyd | Dim |
| 29 | Cyflenwad dŵr | Fflagio os bydd y risg enbyd | Dim |

## Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o wybodaeth am ansawdd mewn perthynas ag Arolwg Cyflwr Tai Cymru (ACTC). Nodwch fod **Adroddiad Ansawdd** manwl ar ystadegau'r ACTC wedi'i gyhoeddi ar wefan ACTC. Mae'r adroddiad hwnnw'n mesur ansawdd yn erbyn pum dimensiwn: Perthnasedd, Cywirdeb a Dibynadwyedd, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymaroldeb a Chydlyniaeth.

### Cefndir ACTC

Roedd bwlch amlwg yng ngwybodaeth Llywodraeth Cymru am gyflwr tai yng Nghymru. Yr ymarfer cynhwysfawr diwethaf i gasglu data ar gyflwr tai yng Nghymru cyn ACTC 2017-18 oedd yr Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru yn 2008. Ym mis Mehefin 2016, rhoddwyd caniatâd a chyllid ar gyfer y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai. Caiff y Rhaglen ei rheoli gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, ac mae'n cynnwys dwy ffrwd waith:

- Arolwg Cyflwr Tai Cymru (ACTC) 2017-18; ac
- Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru: Yn y bôn, cronfa data sy'n casglu amrywiaeth o ddata ar nodweddion, saernïaeth, cyflwr ac effeithlonrwydd ynni'r stoc dai yng Nghymru yw hwn. Lle y bo modd, bydd hynny ar lefel eiddo unigol.

Cynhaliwyd ACTC gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) ar ran Llywodraeth Cymru. Cafodd y gwaith maes ei gynnal rhwng Awst 2017 a mis Ebrill 2018. Cynhaliwyd archwiliadau o eiddo gan syrfëwyr cymwysedig, a gynhaliodd asesiad gweledol o'r tu mewn a'r tu allan i'r eiddo. Roedd yr archwiliadau wedi para tua 4-050 munud, a threuliwyd tua 20 munud y tu mewn yn cynnal archwiliad fesul ystafell. Roedd y syrfëwr hefyd wedi archwilio llain yr eiddo ac wedi gwneud asesiad o'r gymdogaeth leol. I weld manylion llawn y pynciau a gafodd eu cynnwys yn yr Arolwg, gwelwch Ffurflen yr Arolwg, sydd ar gael ar wefan ACTC.

### Cyfraddau Ymateb

Tynnwyd sampl o gyfeiriadau o blith aelwydydd cymwys a oedd yn cymryd rhan yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18. Cyflawnwyd cyfanswm o 2,549 o arolygon llawn ACTC ar draws y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, sy'n galluogi amcangyfrifon ar lefel genedlaethol. Roedd cyfwelwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi cyflawni cyfradd gydsynio o 58%, ac o'r rheini llwyddodd syrfewyr BRE gael cyfradd dros o 78%. Y gyfradd ymateb gyffredinol oedd 45%.

Cyfrifwyd lwfansau ansicrwydd o 95% ar gyfer newidynnau allweddol ACTC, ac maent wedi'u cynnwys yn y Dangosydd Canlyniadau, sydd ar gael ar wefan ACTC.

## Sut y caiff Arolwg Cyflwr Tai Cymru (ACTC) ei ddefnyddio?

Drwy'r wybodaeth allweddol a gesglir yn ACTC, gellir asesu eiddo ar gyfer effeithlonrwydd ynni, costau atgyweirio, Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), tlodi tanwydd a'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai. Bydd hefyd yn helpu i wella'r parth Tai yn niweddariad 2019 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ac i fynd yn sail i ddau o Ddangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru, sef yn benodol cartrefi sy'n rhydd o beryglon a chartrefi sydd â mesurau effeithlonrwydd ynni digonol. Mae cysylltiad agos rhwng ACTC 2017-18 a Rhaglen Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, ac mae'n cael cael ei gydnabod yn un o'r ffynonellau hanfodol o ddata, yn enwedig ar gyfer y gweithgor adeiladau domestig. Caiff yr arolwg ei ddefnyddio hefyd i ddarparu data ar gyfer llawer o anghenion polisi eraill ym maes tai, yr amgylchedd a pholisi cymdeithasol, er enghraifft effaith tai gwael ar iechyd, addysg a gweithgarwch economaidd.

## Pwy sy'n defnyddio Arolwg Cyflwr Tai Cymru (ACTC)?

Caiff yr arolwg ei ddefnyddio at ddibenion llunio polisïau gan Lywodraeth Cymru, yn bennaf ym maes tai a'r amgylchedd, ond hefyd ar gyfer anghenion polisi cymdeithasol. Yn ogystal â'r sefydliadau hynny, mae gan yr arolwg amrywiaeth eang o ddefnyddwyr eraill, gan gynnwys: Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru; awdurdodau lleol ledled Cymru; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Sefydliadau yn y Trydydd Sector; adrannau eraill llywodraeth y DU a sefydliadau llywodraeth leol; sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus; academyddion; cwmnïau preifat; y cyfryngau; a'r cyhoedd.

## Cryfderau a Chyfyngiadau

Rhoddir gwybodaeth fanwl am gryfderau a chyfyngiadau ACTC yn adran 3.1 (Perthnasedd) o'r Adroddiad Ansawdd, sydd ar gael ar wefan ACTC.

## Adroddiad Technegol

Ceir gwybodaeth fanwl am y fethodoleg a ddefnyddir yn ACTC yn adroddiad technoleg yr arolwg, sydd ar gael ar wefan ACTC.

## Geirfa

Mae Geirfa fanwl ar gael ar wefan ACTC, sy'n rhoi diffiniadau o'r termau allweddol yn yr adroddiad hwn.

## Dehongli'r canlyniadau

Roedd rhai cwestiynau ar y ffurflen archwilio ffisegol dim ond wedi cael eu hateb gan y syrfëwr ar gyfer is-sampl o eiddo, ac nid oedd cwestiynau eraill yn cael eu hateb os nad oedd y cwestiwn yn berthnasol.

Lle nodwyd perthynas rhwng dau ffactor, nid yw hynny'n golygu fod y berthynas honno'n un achosol. Mae angen dadansoddiad manylach er mwyn gweld a yw un ffactor yn achosi newid mewn un arall, neu a yw ffactorau eraill yn bwysicach mewn gwirionedd.

Mae'r canlyniadau wedi'u pwysoli yn ôl aelwyd ac unigolion ym mhob aelwyd, ac wedi'u graddnodi i lefelau Cymru. Mae pwysoli ar gyfer dim cysyniad wedi'i gymhwyso hefyd.

### Arwyddocâd Ystadegol

Mae nifer o fesurau allweddol yn y Dangosydd Canlyniadau yn cynnwys lwfansau ansicrwydd bras o 95%. Cyfrifwyd lwfansau ansicrwydd gan ddefnyddio pecyn ystadegol Stata. Mae'r rhain yn rhoi amcan o fanylder yr amcangyfrifon. Gellir cyfrifo lwfans ansicrwydd o amcangyfrif mewn arolwg, gan roi ystod y mae'r gwir werth yn debygol o syrthio o'i fewn. Mae siawns 95% y bydd y lwfansau ansicrwydd o 95% yn cynnwys y gwir werth. Yn gyffredinol, y lleiaf yw maint y sampl, y mwyaf yw'r lwfans ansicrwydd. Fel canllaw cyffredinol i ddehongli'r data, wrth gymharu dau newidyn, os yw lwfansau ansicrwydd yr amcangyfrifon yn gorgyffwrdd gellid rhagdybio nad oes fawr o wahaniaeth ystadegol rhwng yr amcangyfrifon – nid yw'r dull gweithredu hwn mor drylwyr â phrawf ystadegol ffurfiol, ond mae'n syml, yn cael ei ddefnyddio'n eang ac yn weddol gadarn. Os na nodir yn wahanol, mae'r gwahaniaethau yn yr adroddiad hwn yn rhai arwyddocaol.

### Cydlyniaeth

Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi adroddiadau ystadegol blynyddol ar Safon Ansawdd Tai Cymru a'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai. Nid oes modd cymharu'r data yn yr adroddiadau hyn â data ACTC, oherwydd gwahaniaethau yn y modd y mae'r data'n cael eu casglu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr Adroddiad Ansawdd, sydd ar gael ar wefan ACTC. Dolenni cyswllt i Arolygon Tai eraill y DU.

Roedd pob gwlad yn y DU wedi cynnal arolwg o gyflwr tai ar gyfer y cyfnod 2016 - 2017-18. Mae'r canlyniadau diweddaraf ar gael drwy'r dolenni cyswllt isod.

Arolwg Tai Lloegr

Arolwg Cyflwr Tai yr Alban

Arolwg Cyflwr Tai Gogledd Iwerddon

## Diweddariadau

Ers cyhoeddi'r datganiad hwn gyntaf ar 6 Rhagfyr 2018, mae canlyniadau Arolwg Tai Lloegr 2017-18 ac Arolwg Cyflwr Tai'r Alban 2018 wedi'u cyhoeddi. Mae ffigurau gwahanol rannau'r DU wedi'u diweddaru yn y datganiad hwn er mwyn cymharu blynyddoedd yr arolwg.

## Newidiadau i SAP

Mae methodoleg SAP wedi bod trwy ddau ddiweddariad mawr ers fersiwn 2005 a gafodd ei defnyddio'n wreiddiol ar gyfer modelu data'r Arolwg Byw yng Nghymru 2008 – yn gyntaf i SAP 2009 ac wedyn i SAP 2012. Yn ychwanegol, cafodd methodoleg RdSAP ei diweddaru ar gyfer SAP 2012 ym mis Tachwedd 2017. Nid yw hynny'n newid cyfrifiad SAP, ond mae'n newid y ffordd y caiff casgliadau eu gwneud ar gyfer elfennau o gyfrifiad SAP nad ydynt yn

cael eu mesur yn uniongyrchol mewn arolwg anymyrrol. Mae'r gyfres hon o ddiweddariadau, ynghyd â'r gwelliannau parhaus a wnaed i'r modelau a ddefnyddir i gyfrifo SAP, wedi cyflwyno nifer o newidiadau i'r ffordd y mae SAP yn cael ei chyfrifo. Un o'r newidiadau hynny sy'n debygol o fod wedi cael effaith fwy sylweddol yw'r addasiad i'r gwerthoedd-U a wnaed yn niweddariad mis Tachwedd 2017ar gyfer categorïau penodol o waliau. Cafodd gwerthoedd-U ar gyfer waliau solet a waliau ceudod hebu eu hinswleiddio a adeiladwyd cyn 1966 eu diwygio fel eu bod yn is (h.y. yn well), a chafodd gwerthoedd-U ar gyfer waliau ceudod wedi'u hinswleiddio a adeiladwyd cyn 1975 eu diwygio fel eu bod yn uwch (h.y. yn waeth). Bydd y rhan fwyaf o'r newidiadau'n effeithio ar bob deiliadaeth mewn modd tebyg, ond oherwydd bod gan dai cymdeithasol broffil gwahanol i dai preifat (e.e. mwy o waliau ceudod wedi'u hinswleiddio), mae cymedr SAP wedi gostwng ychydig.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau . Gallwch weld adroddiad yr asesiad ar dudalennau gwe y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegol.

Golyga statws Ystadegau Gwladol fod yr ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn pryderu ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon hynny â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant i Gymru. Mae'r rhain er mwyn sicrhau Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel byd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran 10 (1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y gellir eu defnyddio ar gyfer mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol

gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016, ac mae'r datganiad hwn yn cynnwys dau o'r dangosyddion cenedlaethol, sef Dangosydd 31 (canran yr anheddau sy'n rhydd o beryglon), a Dangosydd 33 (canran yr anheddau sydd â pherfformiad ynni digonol).

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Fel dangosydd cenedlaethol o dan y Ddeddf, mae'n rhaid cyfeirio atynt mewn dadansoddiadau o lesiant lleol a baratoir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus pan fyddant yn dadansoddi cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Manylion pellach

Mae'r ddogfen a'r tablau ategol ar gael yn: http://www.llyw.cymru/actc

Mae Adroddiad Ansawdd, Adroddiad Technegol a Geirfa ACTC ar gael ar wefan ACTC. Ceir Dangosydd Canlyniadau hawdd ei ddefnyddio hefyd, sy'n cyflwyno canlyniadau ar nifer o bynciau.

## Y diweddariad nesaf

Cyhoeddir dadansoddiad manwl ar bynciau penodol (ar lefel genedlaethol) o ddechrau 2019 ymlaen. Mae rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiadau arfaethedig ar wefan ACTC.
Cyhoeddir dadansoddiad manwl o dlodi tanwydd yn ystod haf 2019.

## Hoffem gael adborth gennych

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, a gellir gwneud hynny drwy anfon neges e-bost i ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru .

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, oni nodir yn wahanol.

OGL